# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
# Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 20 Medi 2022

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Lindsay Foyster | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| Adam Marshall | Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion |
| Anne Beegan | Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion |
| Elinor Gwynn | Aelod anweithredol |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Kevin Thomas | Aelod a benodwyd o blith y cyflogeion a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (CGGC) |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (CGCN) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (CGGA) |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Ceri Hughes | Rheolwr y Rhaglen Newid (eitem 2) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitemau 1 i 4) |
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Archwilio (eitemau 1 i 4) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1. | Croeso’r cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb |
| 2. | Cynllun Blynyddol Dangosol |
| 3. | ISA315 – Ei Heffaith a’i Rhoi ar Waith |
| 4. | Amcangyfrif a Chynllun Ffioedd Drafft |
| 5. | Unrhyw fater arall |
| 6. | Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 7. | Bwrdd – Datblygiad y TAG (sesiwn breifat) |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1.** | **Croeso’r cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu’r aelodau a'r rhai a oedd hefyd yn bresennol. Nododd ymddiheuriad am absenoldeb gan David Francis. | |
| 1.2 | Nododd y Cadeirydd fod absenoldeb David Francis yn golygu na fyddai cworwm yn y cyfarfod. Yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd diben y | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 20 Medi 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | cyfarfod hwn fyddai cynnal trafodaethau anffurfiol yn unig a byddai unrhyw benderfyniadau'n cael eu gohirio tan y cyfarfod busnes ar 27 Medi 2022. | |
| **2.** | **Cynllun Blynyddol Dangosol** | |
| 2.1 | Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Newid bapur a oedd yn amlinellu'r broses i ddatblygu'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Eglurodd:<br>• y byddai datblygu'r Cynllun Blynyddol yn gynnar o gymorth i'w gysoni â'r Amcangyfrif; a<br>• bod fformat y Cynllun Blynyddol wedi'i fwriadu i gyd-fynd yn strwythurol ac yn thematig â'r Strategaeth Pum Mlynedd. | |
| 2.2 | Mewn ymateb i gwestiwn am gyflawni'r Cynllun Blynyddol, eglurodd Rheolwr y Rhaglen Newid fod cynlluniau busnes lleol wedi cael eu datblygu gyda blaenoriaethau wedi'u hadnabod ar gyfer pob maes o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, gallai'r broses cynllunio busnes gael ei gwella i ymgorffori cerrig milltir allweddol ar gyfer cyflawni ac i ddarparu cyswllt eglur (edefyn aur) rhwng busnes o ddydd i ddydd a'r cynlluniau busnes ac yna â chyflawni'r Cynllun Blynyddol a'r Strategaeth Pum Mlynedd. | |
| 2.3 | Bu'r Bwrdd yn trafod strwythur arfaethedig y Cynllun Blynyddol drafft ac fe awgrymwyd cynnwys peth naratif i egluro'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Blynyddol cyfredol ac amlygu materion arwyddocaol sy'n dod i'r amlwg neu angen am newid dull. Eglurodd y CGCN y byddai naratif byr yn werthfawr, ond roedd hi'n awyddus i sicrhau nad oedd y Cynllun Blynyddol yn ailadrodd ffurf na chynnwys yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a oedd yn darparu'r sylwebaeth fanwl ar gynnydd. Byddai'r TAG yn ystyried sut i adlewyrchu materion a heriau arwyddocaol mewn naratif byr yn llawn gwybodaeth er mwyn rhoi ymdeimlad o gynnydd, gan nodi bod materion o'r fath yn debygol o ddod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn trwy'r adroddiadau chwarterol ar berfformiad. | TAG |
| 2.4 | Fe wnaeth y Bwrdd ystyried cynnwys y Cynllun Blynyddol drafft, yn arbennig:<br>• cyfathrebu a dargedir ac sy'n cael effaith fawr a chynnwys mwy o gyd-destun i ddangos diben gweithgarwch cyfathrebu a'r dull strategol o ran gweithgarwch cyfathrebu gyda gwahanol gynulleidfaoedd. Nododd y Bwrdd fod gwaith ar y gweill i fapio perthnasoedd â rhanddeiliaid i gynyddu'r effaith allanol i'r eithaf ac, fel llinyn ar wahân, i ddenu pobl i weithio i Archwilio Cymru trwy gyflawni'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol;<br>• darpariaeth y Gyfnewidfa Arfer Da, a pha un a fyddai hon yn perthyn yn well i'r edefyn diwylliant. Nododd y Bwrdd, er ei bod yn berthnasol o ran diwylliant, fod y Gyfnewidfa Arfer Da'n cynnwys pwyslais cryfach ar gynyddu cyrhaeddiad ac effaith allanol gwaith yr Archwilydd Cyffredinol | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 20 Medi 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | i'r eithaf, gan ganolbwyntio ar y materion sylfaenol sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus yng Nghymru;<br>• y Gymraeg, gan nodi bod Swyddog y Gymraeg newydd wedi cael ei benodi a'i fod yn cynnal adolygiad i nodi cryfderau ac unrhyw fylchau i oleuo datblygiad strategaeth newydd y Gymraeg y byddai ef yn canlyn arni â hi gyda mewnbwn gan, ac ymgysylltiad â, rhwydwaith presennol y Gymraeg;<br>• sut yr oedd risgiau a chyfleoedd strategol wedi goleuo'r cynllun, a'r potensial ar gyfer datblygu'r adran ar yr amgylchedd gweithredu i fod yn fwy diamwys; a<br>• sut y dylai'r adran ar yr amgylchedd gweithredu adlewyrchu materion cyfredol. Yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Blynyddol drafft, byddai Rheolwr y Rhaglen Newid yn adolygu'r themâu a oedd wedi'u cynnwys i sicrhau eu bod yn gyfredol. Nododd y Bwrdd fod disgwyl hefyd i'r adran hon adlewyrchu dull mwy thematig, tymor hwy o ddatblygu'r rhaglen o waith archwilio. | |
| 2.5 | Eglurodd y CGCN y byddai'r adolygiad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn canolbwyntio ar ddarparu cyfres o fesurau i roi cymorth effeithiol i redeg y busnes a chyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan adlewyrchu'r amgylchedd gweithredu, blaenoriaethau allweddol a newid yn null y rhaglen o waith archwilio. | |
| 2.6 | Diolchodd y Bwrdd i'r CGCN a Rheolwr y Rhaglen Newid am y gwaith datblygu cynnar ar y Cynllun Blynyddol drafft a gofynnodd fod y Bwrdd yn cael gwybodaeth gyson am y cyfeiriad teithio ar gyfer y Cynllun Blynyddol drafft a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ei ategu. | |
| **3.** | **ISA315 – Ei Heffaith a'i Rhoi ar Waith** | |
| 3.1 | Cyflwynodd y CGGA ddiweddariad ar safonau archwilio newydd ISA315 ac ISA330 er mwyn rhoi diweddariad i'r Bwrdd a goleuo'i ystyriaeth i'r Amcangyfrif drafft ar gyfer 2023-24. Amlinellodd y canlynol:<br>• newidiadau allweddol mewn dull archwilio;<br>• effaith a risgiau posibl i Archwilio Cymru; a<br>• gweithgarwch a gyflawnwyd ac sydd ar y gweill i reoli'r modd y rhoddir y safonau ar waith a lliniaru risgiau posibl. | |
| 3.2 | Eglurodd y CGGA:<br>• fod dull Archwilio Cymru'n cael ei oleuo gan brofiadau rhaglenni peilot y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland i roi'r dull newydd ar waith, yn ogystal ag allbynnau o'r cwmnïau archwilio, a oedd yn dynodi cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch asesu risgiau ac yn yr angen am gymysgedd sgiliau mwy cyfoethog ym mlwyddyn gyntaf y gwaith i roi'r safonau ar waith, fel a adlewyrchir yn yr Amcangyfrif drafft; ac | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 20 Medi 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • y byddai gwaith sylweddol yn cael ei wneud rhwng mis Ionawr a mis Mawrth bob blwyddyn i gynnal asesiadau risg a chadarnhau gofynion o ran sgiliau ac adnoddau. | |
| 3.3 | Bu'r Bwrdd yn trafod:<br>• sut y gellid paratoi cyrff a archwilir ar gyfer y dull newydd, gan nodi bod Cyfarwyddwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyrff a archwilir am y dull newydd a'i effaith, gan gynnwys y meysydd lle gellid gofyn mwy o gwestiynau ac i amlygu pwysigrwydd dangos trefniadau llywodraethu da a dull cryf o reoli risgiau;<br>• yr amseriad ar gyfer rhoi'r safonau ar waith a pha un a oedd digon o amser wedi cael ei ganiatáu i sicrhau bod adnoddau ar gael ac yn eu lle, yn enwedig os oedd angen recriwtio'n allanol mewn marchnad swyddi gystadleuol. Nododd y Bwrdd fod yr opsiynau ar gyfer darparu adnoddau'n cynnwys hyfforddeion ym mlynyddoedd 3 a 4 o'u rhaglen a defnyddio contractwyr tymhorol presennol;<br>• cywirdeb amcanestyniadau ar gyfer taliadau ychwanegol, gan nodi y gallai costau a ysgwyddir ac a godir eleni oleuo'r broses o roi'r safonau ar waith y flwyddyn nesaf, ond nad oedd modd osgoi peth ansicrwydd ar yr adeg hon;<br>• pa un a fyddai Archwilio Cymru'n gallu cyflawni archwiliadau ar amser, gan nodi bod templedi a methodolegau yn eu lle ac y byddai terfynau amser yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i waith cynllunio fynd rhagddo;<br>• sut i sicrhau dull cymesur a chyson, gan nodi y byddai hyn yn cael ei gefnogi trwy hyfforddiant a goruchwyliaeth sy'n digwydd yn barhaus, proses adolygu i ddysgu gwersi a threfniadau ansawdd archwilio; a hefyd<br>• y dull o asesu risg a fyddai'n cael ei oleuo gan wybodaeth gan dimau archwilio ariannol a pherfformiad. | |
| 3.4 | Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn llwyr ymwybodol o effaith bosibl y safonau newydd a chynlluniau i'w rhoi ar waith a'i fod wedi'i sicrhau gan y dull a arweinir gan y CGGA. | |
| 3.5 | Diolchodd y Bwrdd i'r CGGA am y diweddariad a'r cyfle iddo ddeall ac archwilio'r goblygiadau ar gyfer Archwilio Cymru. | |
| **4.** | **Amcangyfrif a Chynllun Ffioedd Drafft** | |
| 4.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur a oedd yn amlinellu:<br>• amserlen, cyd-destun a chynnwys yr Amcangyfrif drafft ar gyfer 2023-24;<br>• ychwanegiadau a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion y Pwyllgor Cyllid;<br>• sut yr oedd yr Amcangyfrif drafft yn adlewyrchu'r dull a drafodwyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022; | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 20 Medi 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • y newidiadau disgwyliedig i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru rhwng 2022-23 a 2023-24;<br>• y gyllideb ar gyfer 2023-24 a risgiau cysylltiedig;<br>• effaith ddisgwyliedig newidiadau i safonau archwilio gan gynnwys ISA315;<br>• ymatebion cychwynnol i, ac adborth i gyfarwyddwyr archwilio ar, yr ymgynghoriad ynghylch y cynllun ffioedd;<br>• y meysydd sydd eto i'w hymgorffori yn yr Amcangyfrif drafft, gan gynnwys effaith IFRS16, yr ymgynghoriad ynghylch graddfeydd ffioedd a'r ymgynghoriad ynghylch newidiadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a hefyd<br>• y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. | |
| 4.2 | Bu'r Bwrdd yn trafod y ddarpariaeth ar gyfer codiadau cyflog:<br>• pa un a fyddai hon yn ddigonol a/neu'n briodol gan ystyried costau byw cynyddol a galwadau'r undebau llafur;<br>• sut yr oedd yn cymharu â Chyrff Cyhoeddus eraill a Gyllidir yn Uniongyrchol a chyrff archwilio cyhoeddus eraill gan gynnwys ar draws ffrâm amser o ddwy flynedd; a<br>• sut y gallai unrhyw godiadau cyflog uwchlaw'r swm a gyllidebwyd gael eu cyllido, gan gydnabod na fyddai cyllid Cronfa Gyfunol Cymru'n eu cwmpasu ac y byddai'n anodd cyflawni arbedion pellach.<br>Mynegodd y Bwrdd ei ddymuniad i gefnogi staff a nododd fod y rheolwyr wedi trafod paratoi'r Amcangyfrif gyda'r undebau llafur ac eglurodd, er bod y Bwrdd yn awyddus i sicrhau cymaint o gyllid â phosibl ar gyfer cyflogau, fod y Pwyllgor Cyllid yn annhebygol o gefnogi cyllid nad oedd yn gyson â chyrff cymharol na'r sector cyhoeddus ehangach. Nododd y Bwrdd y byddai'n ofynnol gwneud penderfyniad ynglŷn â'r lefel cyllid y bwriedir ei cheisio ar gyfer codiadau cyflog yn ei gyfarfod ar 27 Medi. | |
| 4.3 | Bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol yn fyr:<br>• y newid arfaethedig mewn cyllid rhwng Cronfa Gyfunol Cymru a ffioedd a sut y gallai naratif cymhellol amlygu'r gwerth, i sector cyhoeddus a chyhoedd Cymru, a fyddai'n deillio o raglen dreigl o waith thematig a thrawsbynciol â ffocws mwy pendant; a<br>• datblygu gronynogrwydd ar arbedion costau arfaethedig, a hynny'n cynnwys manylion unrhyw gamau i osgoi costau rhagamcanol ac effaith mesurau effeithlonrwydd staff. | |
| 4.4 | Byddai'r Pennaeth Cyllid yn ystyried trafodaeth y Bwrdd wrth ddatblygu'r Amcangyfrif ar gyfer ystyriaeth a phenderfyniad yng nghyfarfod busnes y Bwrdd. Estynnodd wahoddiad i'r aelodau ddarparu unrhyw fewnbwn pellach trwy e-bost cyn y cyfarfod hwnnw. | |
| **5.** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 5.1 | Nid oedd unrhyw fater arall. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 20 Medi 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 5.2 | Fe wnaeth y Bwrdd nodi adborth y Cyfarwyddwr Archwilio ar ei brofiad o'r cyfarfod. | |
| **6.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 6.1 | Cyfarfod Busnes y Bwrdd, 10am Dydd Mawrth 27 Medi 2022 | |
| **7.** | **Bwrdd – Datblygu'r TAG (sesiwn breifat)** | |
| 7.1 | Cyfranogodd y Bwrdd a'r TAG mewn sesiwn ddatblygu fer a oedd yn adeiladu ar y themâu o'r diwrnod datblygu ym mis Mai. | |